# Band eang Gigabit ar gyfer ardal Llanddowror Sesiwn Holi ac Ateb ar 27 Gorffennaf

Annwyl gymydog,

Mae gan ein cymuned gyfle i osod band eang gigabit Cysylltiad Ffeibr i'r Adeilad (FTTP) y genhedlaeth nesaf am ddim i drigolion o dan gynllun Llywodraeth y DU. Er mwyn gwneud hwn yn brosiect hyfyw, mae angen i gynifer o drigolion lleol â phosibl gofrestru eu diddordeb. Hyd yn oed os oes gennych chi fand eang cyflym iawn ar hyn o bryd, fe fyddwch chi'n gallu uwchraddio a byddwch chi hefyd yn helpu unrhyw un o'ch cymdogion sydd â chysylltiad araf o hyd.

Mae un o ddarparwyr y rhwydwaith, Broadway Broadband, wedi cytuno i ymweld â ni ac ateb cwestiynau am yr hyn y gallant ei gynnig i'n cymuned o dan y cynllun hwn.

Os oes gennych chi ddiddordeb, dewch draw i **Ystafell Gyfarfod Llanddowror ar 27 Gorffennaf** unrhyw bryd rhwng **4pm a 7pm**, lle gallwch holi Reece Simmons o Broadway Broadband (y darparwr arfaethedig) a Ceri Jenkins o Gyngor Sir Gâr.

Yn y cyfamser, cofrestrwch eich diddordeb yn **www.broadwaybroadband.co.uk** drwy roi eich cod post a'ch manylion. Nid oes rheidrwydd arnoch i fanteisio ar y gwasanaeth drwy wneud hyn – bwriad hyn yw mesur lefel y diddordeb yn ein cymuned.

## Beth yw band eang gigabit?

Mae hwn yn gysylltiad band eang sy'n gallu cynnig cyflymderau o hyd at 1 gigabit yr eiliad (1000 megabit yr eiliad). Mewn cymhariaeth, hyd yn oed yn y rhannau o'n cymuned sydd â band eang cyflym, mae'r cyflymderau fel arfer yn llai na 100 megabit yr eiliad.

## Pam mae ei angen arnom ni?

- Mae tua 58% o aelwydydd yn ein cymuned yn dal i wynebu cyflymder band eang gwael (cyn lleied ag 1-2 megabit yr eiliad mewn rhai mannau)
- Bydd hyn yn uwchraddio ein cysylltedd rhyngrwyd i'w wneud yn addas ar gyfer y dyfodol
- Bydd yn ychwanegu gwerth at eich cartref

**I gael mwy o wybodaeth a chyfle i gofrestru eich diddordeb:**
www.broadwaybroadband.co.uk

SCAN ME

Department for Digital, Culture, Media & Sport
GIGABIT BROADBAND VOUCHER SCHEME

## Pwy yw Broadway Broadband?

Mae Broadway Broadband yn ddarparwr gwasanaeth rhwydwaith ac yn un o'r cwmnïau sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Talebau Band Eang Gigabit. Ar hyn o bryd, maen nhw'n cysylltu â chymunedau cyfagos Meidrim a Thalacharn i osod band eang gigabit, ac maen nhw eisoes wedi gosod band eang gigabit yn Nhreamlod ac wedi dechrau gosod yn Dale a Marloes yn Sir Benfro.

## Faint fydd hyn yn ei gostio?

Mae'r Cynllun Talebau Band Eang Gigabit yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae talebau'n cael eu cynnig i aelwydydd yn ein hardal ni er mwyn ein galluogi i osod band eang gigabit yn ein cartrefi, heb gostau gosod i drigolion.

Yn yr un modd â phob darparwr rhyngrwyd, mae ffi fisol i ddefnyddio eu gwasanaeth, sy'n dechrau ar £9.99 y mis ar gyfer band eang ffeibr 100 Mb yr eiliad gyda data diderfyn.

## Beth am fy llinell ffôn?

Gallwch barhau i ddefnyddio eich darparwr ffôn presennol, neu gallwch ddewis pecyn ffôn Broadway. Mae hyn yn costio £9.99 ychwanegol y mis ond nid yw'n cynnwys rhent llinell, a gallwch gadw eich rhif llinell dir presennol. Mae gwasanaethau ffôn "VOIP" eraill ar y rhyngrwyd hefyd ar gael heb rentu llinell.

Cofion cynnes,

Eich grŵp prosiect lleol


Simon Jones a Helen Reavell
Halfpenny Furze, Llanddowror

www.facebook.com/groups/gigabit.llanddowror
E-bost: gigabit.llanddowror@gmail.com


**I gael mwy o wybodaeth a chyfle i gofrestru eich diddordeb:**
www.broadwaybroadband.co.uk

SCAN ME

Department for Digital, Culture, Media & Sport
GIGABIT BROADBAND VOUCHER SCHEME